Hawdd ei ddeall

# Cyd-Brentisiaethau gyda Chymorth yn Ne Cymru

## Beth rydyn ni wedi'i ddysgu



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek o'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Cyd-Brentisiaethau yn Ne Cymru**'.

**Ionawr 2025**

Engage To Change – Influencing and Informing · Learning Disability Wales / Anabledd Dysgu Cymru · NCMH National Centre for Mental Health · Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 19**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â

**Ebost:** angela.kenvyn@ldw.org.uk

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Beth sydd yn y papur yma** .......... **4**

**Am Engage to Change** .......... **6**

**Mwy am Brentisiaethau â Chymorth** .......... **8**

Asiantaethau Cyflogaeth â Chymorth .......... 9

Darparwyr hyfforddiant .......... 10

**Rhaglen Prentisiaeth â Chymorth yn Ne Cymru** .......... **11**

Mwy am y bobl ifanc sy'n cymryd rhan .......... 12

Prentisiaeth â Chymorth a Chyd-Brentisiaeth â Chymorth .......... 13

Mathau o swyddi .......... 13

**Beth sy'n gweithio** .......... **14**

**Pethau i feddwl amdanyn nhw** .......... **16**

**Geiriau anodd** .......... **19**

# Beth sydd yn y papur yma

Mae'r papur yma am:



- Cymorth Hyfforddwr Swydd,



- Yn cael ei ddarparu trwy 2 fath gwahanol o raglenni **prentisiaeth**.

> Mae **prentisiaeth** yn meddwl gweithio a dysgu ar yr un pryd. Mae person sy'n gwneud **prentisiaeth** yn cael eu galw yn **brentis**.

Fe wnaethon ni edrych ar gefnogaeth hyfforddwyr swydd oedd yn cael eu darparu trwy:



- **Prentisiaethau â Chymorth**

  Dyma lle mae prentisiaid yn cael cefnogaeth gan hyfforddwr swydd.



- **Cyd-Brentisiaethau â Chymorth**

  Dyma lle mae'r asiantaeth gyflogaeth â chymorth yn gweithredu fel y cyflogwr ac yn talu'r cyflogau. Mae **prentisiaid** yn cael cefnogaeth gan hyfforddwr swydd.



Fe fydd **prentisiaid** yn gallu gweithio mewn hyd at 3 gweithle gwahanol.



Dros amser, gobeithio y bydd y gweithle go iawn yn cymryd drosodd fel y cyflogwr.



Mae'r papur yma yn edrych ar y gefnogaeth sydd yn cael ei ddarparu gan:

- Asiantaeth Cyflogaeth â Chymorth ELITE
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- a Hyfforddiant Cambrian.

# Am Engage to Change

Roedd **Engage to Change** yn brosiect oedd yn rhedeg am 7 mlynedd yng Nghymru.



Roedd yn rhoi cefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth baratoi ar gyfer cyflogaeth a chael swydd â thâl.



Fe gafodd dros 1000 o bobl ifanc eu cefnogi drwy'r prosiect.

Anabledd Dysgu Cymru oedd yn arwain y prosiect.

Roedd ELITE ac Agoriad Cyf yn darparu cyflogaeth â chymorth.

Fe wnaeth y **Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH)** wneud ymchwil i ddarganfod beth sy'n gweithio.



Fe wnaethon ni ddarganfod bod cymorth hyfforddwyr swyddi, a chefnogaeth wedi ei seilio ar anghenion unigol yn gweithio orau.




Yn 2021 fe wnaethon ni redeg rhaglen brawf **Prentisiaeth â Chymorth**. Roedd yn cynnwys hyfforddiant swyddi.



Daeth hyn i ben yn 2023, ond roedd yn gweithio'n dda. Fe wnaeth hyn arwain at **Gyd-Brentisiaethau â Chymorth** sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae **Cyd-Brentisiaethau â Chymorth** ar gael ar draws Cymru.

# Mwy am Brentisiaethau â Chymorth



Mae **Prentisiaethau** â Chymorth yn ffordd bwysig o gael pobl ifanc ag anabledd dysgu i mewn i swydd.



Maen nhw yn darparu dysgu a phrofiad tra bod y person ifanc yn cael y cymorth maen nhw ei angen.



Mae’n bwysig iawn bod cyfle cyfartal i bobl anabl gael **prentisiaethau**.

# Asiantaethau Cyflogaeth â Chymorth



Mae pobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth yn gallu wynebu llawer o heriau wrth geisio cael gwaith.



Mae Asiantaethau Cyflogaeth â Chymorth yn rhoi'r cymorth mae pobl ei angen i ddod o hyd i'r swydd iawn iddyn nhw.



Maen nhw hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr ac yn rhoi cyngor am bethau fel budd-daliadau lles. Ac maen nhw'n cefnogi'r person ifanc i ddysgu rôl y swydd.

# Darparwyr hyfforddiant




Mae darparwyr hyfforddiant yn cynnig cymorth gydag ochr addysg **prentisiaethau**.




Maen nhw’n darparu’r hyfforddiant mae person ifanc ei angen i’w helpu yn eu swydd. ac ennill cymwysterau.



Mae Mencap yn dweud bod rhai heriau o hyd i bobl ag anabledd dysgu gael **prentisiaethau**.



Er enghraifft, mae rhai yn gofyn am gymwysterau Mathemateg a Saesneg, er nad oes eu hangen ar gyfer y swydd ei hun.



Mae pobl hefyd yn poeni y byddan nhw yn cael eu gadael allan pan fyddan nhw yn dweud wrth eu cyflogwr am y cymorth maen nhw ei angen.

# Rhaglen Prentisiaeth â Chymorth yn Ne Cymru



Roedd gan ELITE 134 o atgyfeiriadau am gymorth rhwng 2022 a 2023. Roedd llawer o bobl ifanc yn cyfeirio eu hunain. Mae rhai yn dod o brosiectau a sefydliadau eraill.



Doedd rhai pobl ddim yn gallu mynd ar y rhaglen. Roedd hyn oherwydd pethau fel:

- 1 person oedd ddim yn byw yn yr ardal gywir
- 5 person heb y cymwysterau cywir
- Fe wnaeth 41 o bobl dynnu'n ôl am resymau nad ydyn ni'n gwybod beth oedden nhw.



Ym mis Ionawr 2024 roedd 25 o bobl ifanc ar y rhaglen paratoi gwaith 6 mis. Mae hyn er mwyn eu paratoi ar gyfer y **brentisiaeth â chymorth**.



Roedd 24 o bobl ifanc ar y **rhaglen prentisiaethau â chymorth**. Roedd 17 o bobl yn cael eu hasesu.

# Mwy am y bobl ifanc sy'n cymryd rhan



Roedd bron i 7 o bob 10 person ifanc oedd yn cael eu cyfeirio yn ddynion.



Yr oedran ar gyfartaledd oedd 24.




Roedd gan y bobl ifanc anghenion gwahanol.
Er enghraifft:

- 17 gydag awtistiaeth
- Roedd gan 3 anabledd dysgu
- 3 gydag anhawster dysgu
- Roedd gan 10 anabledd dysgu ac awtistiaeth
- Roedd gan 10 awtistiaeth ac anawsterau dysgu penodol
- Roedd gan 2 anabledd corfforol
- Roedd gan 2 anabledd synhwyraidd

# Prentisiaeth â Chymorth a Chyd-Brentisiaeth â Chymorth



Roedd 27 rhaglen **brentisiaeth** â chymorth wedi cael eu darparu mewn gwahanol weithleoedd.

## Mathau o swyddi



Roedd y bobl ifanc wedi cael cefnogaeth i lawer o wahanol fathau o swyddi.



Y mwyaf poblogaidd oedd Gweinyddiaeth Busnes. Wedyn Gwasanaeth Cwsmeriaid ac yna Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi.



Y mathau eraill o swyddi oedd mewn ffasiwn, gofal iechyd, campfa, darparu bwyd a diod, garddio ac mewn warws.

# Beth sy’n gweithio



Fe wnaeth ymchwilwyr holi dau aelod o staff o ELITE. Roedden nhw wedi trafod beth sy’n helpu i gael pobl ifanc i mewn i **raglen Cyd-Brentisiaeth**.

Dyma rai o’r pethau maen nhw’n meddwl sydd eu hangen:




- Cyd-weddu pobl i waith yn ofalus.



- Gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall beth mae prentisiaeth â chymorth yn ei feddwl.



- Mae hyfforddiant swyddi gan yr Asiantaeth Gyflogaeth yn bwysig iawn.



- Mae angen i sefydliadau weithio’n dda gyda’i gilydd a bod yn glir gyda’i gilydd.



- Cyd-weddu pobl â’r **brentisiaeth** gywir ar eu cyfer.



- Mae cefnogaeth a chyrsiau cyn i’r **brentisiaeth** ddechrau yn bwysig.



- Meddwl am holl anghenion y person ifanc. Mae hyn yn cael ei alw yn **addasiadau rhesymol**.




- Gwneud yn siŵr bod y ganolfan waith, Gyrfa Cymru ac eraill yn deall beth ydy **Cyd-Brentisiaethau â Chymorth**.

# Pethau i feddwl amdanyn nhw



Mae **Prentisiaethau â Chymorth** yn ffordd wych o gefnogi pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth i ddod o hyd i waith.



Roedd pobl ifanc oedd wedi cael profiad gwaith yn barod yn fwy tebygol o gael swydd.



Yn yr adroddiad yma, roedd gan tua 6 o bob 10 person ifanc rywfaint o brofiad gwaith yn barod.



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod:


- beth mae **prentisiaethau** â chymorth yn ei feddwl
- a beth maen nhw'n gallu ei ddisgwyl.




Mae gostwng y radd o ymuno â'r **brentisiaeth** yn meddwl bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan.




Mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn cael asesiad i weld bod y **brentisiaeth â chymorth** yn iawn iddyn nhw.



Mae angen newidiadau i'r lefelau mynediad sydd eu hangen mewn mathemateg a Saesneg. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn fwy addas ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.



Mae angen rhoi rhesymau i gyflogwyr gynnig **prentisiaethau â chymorth**. Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu cynnwys yn fwy yn y gweithle.




Mae angen cael cynllun ar waith i Gymru am hyfforddiant swyddi. Fe ddylai unrhyw un sydd ei angen gael cymorth hyfforddiant swydd.



Mae angen cynnal adolygiad o’r **rhaglenni Cyd-Brentisiaethau â Chymorth** ar gyfer Cymru gyfan.



Efallai y bydd rhai pobl ifanc angen mwy o amser cymorth.



Does dim digon o dystiolaeth am yr effeithiau mae’r rhaglenni yn eu cael ar gael swydd yn y tymor hir eto.



Ond mae’n ymddangos bod hyfforddiant swyddi yn rhan bwysig o gynnwys pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth.

# Geiriau anodd

### Rhaglen brentisiaethau

Mae rhaglen brentisiaethau yn meddwl gweithio a dysgu ar yr un pryd. Mae'r unigolyn yn ennill sgiliau a phrofiad wrth wneud y swydd.



Influencing and Informing
Engage To Change

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

NCMH
National Centre for Mental Health

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cronfa Gymunedol
Community Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government